

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau
Dynol Cymru**

Pwyllgor Cymru

Cyngor i Jane Hutt AC

Y Gweinidog Cydraddoldeb

Llywodraeth Cymru

Tachwedd 2012



Cysylltu â ni

Ffôn: 02920 447710

Ffacs: 02920 447712

wales@equalityhumanrights.com

www.equalityhumanrights.com/wales

Cynnwys

Pwyllgor Cymru	Error! Bookmark not defined.
Crynodeb.....	5
Cyngor i'r Gweinidog Cydraddoldeb	6
Argymhellion y Comisiwn.....	7
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	8
Rhan 1: Cyd-destun	12
Rhan 2. Ceisio grymoedd cynyddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn cynnwys datganoli Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	16
Rhan 3. Cryfhau perthynas y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru	20
Rhan 4. Creu cysylltiadau rhwng grwpiau gwarchoddedig ac anghyfartaledd economaidd- gymdeithasol	23
Rhan 5: Gwneud y gorau o rymoedd presennol	27
Argymhelliad.....	30
Atodiad 1	32
Atodiad 2	35
Atodiad 3	37

Pwyllgor Cymru

Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2006 Bwyllgor Cymru fel corff penderfynu gyda dyletswyddau a grymoedd i gynghori llywodraeth ddatganoledig, datblygu rhaglen waith a sicrhau fod gwaith y Comisiwn yn briodol i Gymru. Nhw sy'n gosod cyfeiriad strategol gwaith y Comisiwn yng Nghymru.

Ann Beynon OBE yw Comisiynydd Cymru'r Comisiwn a Chyfarwyddwr BT yng Nghymru. Mae Ann yn cadeirio ein Pwyllgor Cymru, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru.

Y Parch Aled Edwards OBE yw Prif Weithredwr CYTÛN (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru).

Karen Dugate yw Prif Weithredwr Cymdeithas Dai Merthyr Tudful.

Mae **Marie Brousseau-Navarro** yn arbenigwr blaenllaw ar Gyfraith Cymru a Datganoli ac yn Rheolwr Gyfarwyddwr Your Legal Eyes.

Megan Mathias yw Cyfarwyddwr a chyd sylfaenydd Kafka Brigade UK ac mae'n gyn was sifil yn Llywodraeth Cymru yn gweithio ar arloesi a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae **Meryl Elmusrati** yn rheolwr rhaglen i raglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru yn Sir y Fflint ac mae ganddi brofiad o rolau Cyfarwyddwr Anweithredol ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae **Mona Bayoumi** yn fargyfreithiwr yn arbenigo mewn hawliau dynol a lloches a mewnfudo wedi ei lleoli yn Siambrau Cyfraith Civitas.

Mae **Saleem Kidwai OBE** yn Ysgrifennydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Mwslimiaid Cymru, yn Gymrawd Anrhydeddus i Brifysgol Caerdydd ac yn gyfrifydd cymwysedig.

Mae **Siân Gale** yn Gyfarwyddwr Cwmni Pawb sy'n arbenigo mewn hyfforddiant, ymchwil a gwerthuso i'r diwydiannau creadigol yn ogystal â sefydliadau cymunedol ac undebau llafur.

Crynodeb

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn am gyngor ar sut i gyflawni ei nod o sefydlu

“mwy o atebolrwydd Cymreig dros ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys gorfodi dyletswyddau penodol Cymru”

Cyngor y Comisiwn yw bod angen i Lywodraeth Cymru allu gosod yr agenda cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru a rheoleiddio cyflawniad gan y sector cyhoeddus i gyflawni'r nod honno. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw:

- Datganoli llawn o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o Lywodraeth y Deyrnas Unedig i Lywodraeth Cymru.
- Ceisio grymoedd cynyddol i adeiladu ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998
- Cryfhau perthynas y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys, fel fo'n briodol, trwy ariannu gwaith penodol
- Creu cysylltiadau cryfach rhwng taclo tlodi a lleihau anghydraddoldeb

Byddai'r mesurau hyn yn sicrhau fod Llywodraeth Cymru mewn rheolaeth lawn o unrhyw newidiadau i'r Ddyletswydd yn y dyfodol – er enghraifft, newidiadau i'w chwmpas, pa sefydliadau a gwmpasir ganddi a sut mae'n cael ei monitro a rheoleiddio. Ni fyddai'n agored i unrhyw newidiadau yr hoffai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau cyfrifoldebau cynyddol dros gydraddoldeb a hawliau dynol, byddai hyn yn galw ar y Comisiwn i addasu ei ymagwedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ymhellach. Byddai hyn yn golygu adeiladu perthnasau cryf a nodedig gyda Llywodraeth Cymru yn ogystal â gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig – a gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a'i Bwyllgorau yn ogystal â gyda'r Senedd.

Bydd cyfleoedd yn codi yn y flwyddyn neu ddwy nesaf i wneud newidiadau i'r setliad Cyfansoddiadol – yn cynnwys gwneud cyflawniad i'r Comisiwn Silk. Dylid defnyddio'r rhain i gryfhau atebolrwydd Cymru dros ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. O ganlyniad bydd yr agenda cydraddoldeb a hawliau dynol nodedig a blaengar yn gallu ffynnu a chyflawni gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac i ddinasyddion Cymru.

Mae yna gamau y gellir eu cymryd tuag at atebolrwydd cynyddol a gwella cyflawniad wrth sicrhau newidiadau mwy sylweddol. Maent yn seiliedig ar:

- Wneud y gorau o ymagwedd strategol newydd Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb sydd wedi ei mewnosod yn ei Hamcanion a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2012.

Cyngor i'r Gweinidog Cydraddoldeb

Yn Ionawr 2012, fe ysgrifennodd Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cydraddoldeb, at y Comisiwn ynglŷn â'r canlynol:

'Byddwch yn ymwybodol fod Rhaglen Llywodraeth Cymru 2011/2016 yn cynnwys gweithred i archwilio sut y gellir cyflawni sefydlu atebolrwydd cryfach dros ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys gorfodi materion penodol i Gymru.

Rwyf wedi bod yn ystyried beth yw'r ffordd orau o symud ymlaen â hyn. Ynghyd â'm swyddogion, teimlaf y byddai'n ddefnyddiol pe gallai Pwyllgor Cymru'r Comisiwn ein cyngori ar hyn o beth, gan gynnwys y rhinweddau, heriau, anfanteision ac ystyriaethau ymarferol.'

Mae Pwyllgor Cymru'r Comisiwn yn croesawu'r cyfle hwn i ddarparu cyngor i'r Gweinidog Cydraddoldeb.

Mae Pwyllgor Cymru yn cyflwyno pedwar argymhelliad, y dylid datblygu pob un ohonynt. Maent yn gysylltiedig a byddant yn atgyfnerthu ei gilydd o ran effaith. Gyda'i gilydd mae'r argymhellion hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau atebolrwydd cynyddol dros gydraddoldeb a hawliau dynol a sicrhau fod ganddi reolaeth o'r agenda pwysig hwn yng Nghymru – ac yn arbennig Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Gellir gweithredu ar rai argymhellion ar unwaith, bydd eraill yn cymryd mwy o amser i'w gweithredu ac yn cael effaith gynyddol dros gyfnod o'r ychydig flynyddoedd nesaf.

Dangosir rhinweddau, heriau a goblygiadau ymarferol pob argymhelliad ar ddiwedd yr adran berthnasol.

Unwaith y bydd y Gweinidog wedi gwneud penderfyniadau ar weithredu yn y dyfodol, gall Pwyllgor Cymru gynorthwyo i ddatblygu'r cyngor ymhellach.

Argymhellion y Comisiwn

1. Ceisio grymoedd cynyddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn cynnwys datganoli Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Gallai Llywodraeth Cymru sefydlu'r achos dros ddatganoli Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn ei chyfanrwydd, o Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Byddai hyn yn darparu Llywodraeth Cymru â sicrwydd o reolaeth yn y dyfodol. Byddai'n caniatáu ar gyfer addasu'r Ddyletswydd yng Nghymru, er enghraifft, i gynnwys dyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Gallai Llywodraeth Cymru fynd ymhellach a gofyn am y gallu i adeiladu ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Byddai hyn yn ei galluogi i gyflwyno darpariaethau penodol i Gymru parthed y sector cyhoeddus pe byddai eisiau gwneud hynny yn y dyfodol.

2. Cryfhau perthynas y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru

Gellid cymryd camau gan Lywodraeth Cymru i gryfhau'r berthynas gyda'r Comisiwn ac, yn benodol, gyda Phwyllgor Cymru a'r Gyfarwyddiaeth. Gallai'r Comisiwn gyflawni rhaglenni atodol o waith i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fan gytundeb.

3. Creu cysylltiadau rhwng grwpiau gwarchoddedig ac anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol

Gallai Llywodraeth Cymru adeiladu ymagwedd strategol unedig, gyda gweithredoedd diffiniedig unigol, i daclo anfantais economaidd-gymdeithasol ac unioni anghyfartaledd.

Gellid cyflawni hyn drwy:

- Sicrhau fersiwn o ddyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 i Gymru
- Ychwanegu anfantais economaidd-gymdeithasol i Ddyletswydd sydd wedi ei datganoli'n llawn i Gymru
- Egluro diben Adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gan roi sylwedd iddo, a chyhoeddi canllaw

4. Gwneud y gorau o rymoedd presennol

Bydd parhau i gryfhau'r ffocws ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei Rhaglen 2011/2016. Gallai cydraddoldeb, a pherfformiad parthed yr Amcanion Cydraddoldeb, ffurfio rhan fwy arwyddocaol o'r dialog rhwng Gweinidogion a'u sector.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw'r eiriolwr annibynnol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain. Rydym yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 ac a ddaeth yn weithredol yn Hydref 2007. Rydym yn rheolydd modern gydag awdurdod dros gynnal triniaeth deg a thaclo anghydraddoldeb. Rydym yma i sicrhau fod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch. Credwn nad oes unrhyw le i effeithiau niweidiol gwahaniaethu a rhagfarn mewn cymdeithas fodern, agored.

Mae'r Senedd wedi gosod y tasgau o hyrwyddo cydraddoldeb, gorfodi'r gyfraith, diogelu hawliau dynol pawb a dod â phobl ynghyd i adeiladu cymunedau cryfach i ni. Mae'r rhain yn nodau uchelgeisiol fydd yn gofyn am weithio mewn partneriaeth ag eraill a chefnogaeth y cyhoedd i'w cyflawni.

I gyflawni'r nodau hyn, mae gennym rymoedd unigryw. Gallwn gymryd camau cyfreithiol ar ran unigolion i brofi ac ymestyn yr hawl i gydraddoldeb a hawliau dynol; sefydlu ymchwiliadau i ymchwilio i ymddygiad sefydliadau; hyrwyddo a gorfodi dyletswyddau'r sector cyhoeddus; a defnyddio'n dylanwad i arwain trafodaethau newydd yn seiliedig ar y dystiolaeth a gesglir ac a gyhoeddir gennym.

Yn 2009 fe ymunodd y Comisiwn â'r teulu o 66 o Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol (NHRlau) achrededig statws 'A' ledled y byd, gan ddod yn NHRI achrededig cyntaf Prydain ac ail un y Deyrnas Unedig – yn ymuno â Sefydliad Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon a dderbyniodd statws 'A' yn 2006.

Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2006 Bwyllgor Cymru'r Comisiwn fel corff penderfynu gyda dyletswyddau a grymoedd i:

- Gyngori llywodraeth ddatganoledig ynglŷn â deddfiadau ac effeithiau tebygol deddfwriaeth (adran 11 DC 2006)
- Cyflawni ymchwil; cyhoeddi a dosbarthu syniadau; rhoi cyngor a chanllaw; darparu addysg a hyfforddiant (adran 13 DC 2006)
- Cyngori'r Comisiwn ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau cyn belled ag y maent yn effeithio ar Gymru

O ran y gwaith a gwmpasir gan adrannau 11 ac 13 (uchod) sy'n effeithio ar Gymru, dim ond Pwyllgor Cymru all ddatblygu hyn yng Nghymru. Sefydlir yr adran berthnasol yn Atodiad 1. Mae'r Ddeddf yn dynodi mai Comisiynydd Cymru, sy'n aelod o brif Fwrdd y Comisiwn, sy'n cadeirio Pwyllgor Cymru.

Ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddyfodol y Comisiwn

Yn Ebrill 2011, lansiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymgynghoriad ar ddyfodol y Comisiwn 'Building a fairer Britain: Reform of the Equality and Human Rights Commission'. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar 15 Mai 2012.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi penderfynu gwneud y newidiadau canlynol i ddyletswyddau a grymoedd y Comisiwn:

- Diddymu dyletswydd gyffredinol y Comisiwn yn Adran 3 Deddf cydraddoldeb 2006
- Addasu'r ddyletswydd Adran 12 i fonitro cynnydd o bob 3 blynedd i bob 5 mlynedd
- Diddymu dyletswydd cysylltiadau da'r Comisiwn
- Diddymu grym y Comisiwn i drefnu cymodi

Ychydig iawn sydd yn ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n annisgwyl neu'n sy'n newid sylweddol ar y ddogfen ymgynghori wreiddiol a gyhoeddwyd 14 mis yn ddiweddarach. Noda Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod y Comisiwn wedi gwella atebolrwydd a gwerth am arian ac mae'n dymuno i'r Comisiwn fod yn sefydliad a werthfawrogir ac a barchir.

Ar y cyd â hyn, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithredu nifer o ddiwygiadau anneddfwriaethol i'r Comisiwn, yn cynnwys:

- Dod â'r llinell gymorth a rhaglenni grantiau i ben
- Lleihau'r gyllideb
- Cyflawni adolygiad ar sail sero o gyllideb y Comisiwn
- Lleihau maint y Bwrdd
- Adolygu perfformiad y Comisiwn yn Hydref 2013

Bydd y lleihad a ragwelir yng nghyllideb ac adnoddau'r Comisiwn yn cael effaith arwyddocaol. Y gyllideb wreiddiol ar gyfer y Comisiwn yn 2007 oedd £70 miliwn, gyda 525 o staff. Lleihawyd y gyllideb yn raddol a bydd niferoedd staff islaw 200 erbyn Ebrill 2013.

Presenoldeb cryf a nodedig i'r Comisiwn yng Nghymru

Noda ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r ymgynghoriad ar ddyfodol y Comisiwn fod y Llywodraeth yn gosod

'pwysigrwydd i gadw presenoldeb cryf a nodedig i'r Comisiwn yng Nghymru a'r Alban, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban.'

Mae'r cyfeiriadau at 'cryf a nodedig' yn thema gyson trwy gydol ymateb yr ymgynghoriad. Nid yw hyn yn gysyniad newydd. Noda Deddf Cydraddoldeb 2006 ofyniad am Gomisiynydd a Phwyllgor Cymru fel y sefydlwyd yn Atodlen 1 Rhan 2.

Ers 2007, bu gan y Comisiwn:

- Gyfarwyddwr Cymru sy'n Aelod o'r Tîm o Uwch Reolwyr i sicrhau cysondeb Prydeinig a pherthnasedd i Gymru
- Rhaglen waith sy'n briodol i'r cyd-destun Cymreig
- Swyddfa yng Nghymru gyda Thîm o Staff sy'n cynnwys profiad, gallu a chymhwyster i:
 - Gasglu a dadansoddi data a thystiolaeth yn ymwneud yn benodol â Chymru
 - Hyrwyddo, tywys, monitro a gorfodi'r gyfraith, yn cynnwys y dyletswyddau newydd penodol yng Nghymru
 - Cyngori Llywodraeth Cymru ar draws y cylch gorchwyl
 - Ymgysylltu â rhanddeiliaid i gynyddu gwybodaeth o hawliau a chyfrifoldebau ac i rannu arfer da

Bwriad y Comisiwn yw y dylid parhau i weithredu'r egwyddorion hyn yng Nghymru. Byddwn yn dal i gyflawni'r ystod hon o waith – er gyda thîm llai yng Nghymru. Mae hyn yn darparu'r sylfaen dros bresenoldeb cryf a nodedig i'r Comisiwn yng Nghymru.

Rhaglen Waith y Comisiwn 2012/13

Mae gan y Comisiwn yng Nghymru bump o flaenoriaethau ar gyfer 2012/2013. Sef:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydliad atebolrwydd Cymreig cryfach dros deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys gorfodi'r dyletswyddau penodol i Gymru. Byddwn yn gwneud cyflwyniad i Gomisiwn Silk yn cyflwyno sut y gellir cryfhau deddfwriaeth cydraddoldeb yng Nghymru a'i wneud yn eglurach
- Defnyddio ein sylfaen o dystiolaeth i gynorthwyo sefydliadau i greu deddfwriaeth, gosod blaenoriaethau a chreu polisiau sy'n delio â'r anghydraddoldebau mwyaf yng Nghymru
- Hyrwyddo, monitro, a rheoleiddio'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus fel bod y dyletswyddau ac asesiadau effaith cydraddoldeb yn arwain at wella penderfyniadau a gwasanaethau
- Gweithio'n agor gyda chyflogwyr fel eu bod yn fwy ymwybodol o faterion cydraddoldeb a hawliau dynol. Byddwn yn annog cyflogwyr y sector cyhoeddus a phreifat i fabwysiadu polisiau gweithle ar gamdriniaeth ddomestig ac iechyd meddwl
- Darparu cyrsiau i undebau llafur a chynghorwyr cyfreithiol eraill fel bod gan unigolion fwy o ddealltwriaeth o wahaniaethu a materion hawliau dynol

Rhan 1: Cyd-destun

Yn y rhan hwn rydym yn sefydlu cyd-destun datblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ers 1999, y cais gan y Gweinidog yn Ionawr 2012, rhai syniadau ar ystyr a phwysigrwydd atebolrwydd a'r modd y mae'r Comisiwn wedi llunio ei gyngor.

Agenda cydraddoldeb a hawliau dynol nodedig Cymreig

Mabwysiadwyd ymagwedd nodedig tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ers 1999. Dylanwadodd yr ymgyrch wleidyddol am ddatganoli, yn cynnwys rôl ymgyrchwyr cydraddoldeb, ar gynnwys Deddf Llywodraeth Cymru 1998. O ganlyniad roedd y Ddeddf yn cynnwys cymal (Adran 120) yn cyflwyno dyletswydd gyfreithiol unigryw i gael "sylw dyledus i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb." Daeth hyn yn Adran 77 yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Arddangosodd gwerthusiad annibynnol fod Adran 120 (ac yna Adran 77) yn cael effaith arwyddocaol. Yn ôl Dr Paul Chaney:

'symudodd y pwyslais yn sut mae'r llywodraeth yn delio gyda materion cydraddoldeb o osgoi gwahaniaethu i hyrwyddo cydraddoldeb'

Mae Dr Chaney yn nodi'r gwahanol ymagwedd i gydraddoldeb fel ffactor wahaniaethol rhwng Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, mae Adrannau 80 ac 81 Deddf 2006 yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud unrhyw beth sy'n anghymesur â hawliau'r Confensiwn fel y'i diffiniwyd gan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Ategwyd yr ymagwedd nodweddiadol hon i gydraddoldeb a hawliau dynol gan yr egwyddor o gael trefn ar dŷ Llywodraeth Cymru ei hun, dylanwadu ar y sector cyhoeddus datganoledig a, ble fo'n bosibl, cyrraedd ymhellach yn y sectorau cyhoeddus a phreifat nad ydynt wedi eu datganoli.

Mae'n arwyddocaol fod hyrwyddo cydraddoldeb wedi elwa o gonsensws trawsbleidiol ar y rhan fwyaf o faterion yn sesiynau'r Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn.

Mae ysgogiadau ar gyfer yr ymagwedd wahanol hon yn cynnwys yr angen economaidd i daclo tloidi, yr angen gwleidyddol i gyflawni cynhwysiant cymdeithasol, a chryfder y sector gwirfoddol i gynorthwyo cyflawniad.

Roedd canlyniadau'r gwahanol ymagwedd yn ystod Sesiwn gyntaf y Cynulliad yn cynnwys cyllid penodol ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb ac ymgyrch bartneriaeth a sefydlodd fod Cymru yn arwain y blaen o ran hyrwyddo cyflog cyfartal.

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb y Cynulliad wedi cyflawni adolygiadau i ddelio â materion hawliau dynol parthed Teithwyr Sipsiwn a phobl ifanc ag anabledd dysgu. Mae wedi cynnal Ymchwiliadau i aflonyddu ar sail anabledd a'r ystyriaethau cydraddoldeb yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

Yn 2004 cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb adroddiad ar brif ffrydio cydraddoldeb oedd yn cynnwys argymhellion i'r Pwyllgor, y Llywodraeth a'r Ysgrifennydd Parhaol – yn y bôn roedd yn argymhell ymagwedd fwy strategol.

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus newydd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i gynorthwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn arwyddocaol o wahanol ac yn llawer mwy pellgyrhaeddol na'r rhai yn Lloegr a'r Alban. Gwaith y Comisiwn yw rheoleiddio'r dyletswyddau hyn.

Mae Rhaglen Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn dilyn etholiad 2011 yn cynnwys pennod cydraddoldeb. Yr amcan allweddol yw i:

'Greu cymdeithas deg yn rhydd o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth gyda chymunedau cydlynol a chynhwysol'

Gweithred i gyflawni'r nod hon yw i:

'sefydlu mwy o atebolrwydd Cymreig dros ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys gorfodi dyletswyddau penodol Cymru'

Y cais gan Y Gweinidog Cydraddoldeb

Yn Ionawr 2012, ysgrifennodd y Gweinidog Cydraddoldeb, Jane Hutt, at y Comisiwn yn dynodi ei bod wedi bod yn meddwl am y ffordd orau o symud ymlaen â'r nod o sefydlu mwy o atebolrwydd. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ddefnyddiol pe gallai Pwyllgor Cymru gynghori ar hyn o beth, gan gynnwys barnau ar rinweddau, heriau, anfanteision ac ystyriaethau ymarferol cryfhau atebolrwydd.

Wrth ymateb i'r cais hwn, ystyriodd y Comisiwn sut y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau mwy o ddylanwad dros weithgaredd y sector cyhoeddus ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Roedd hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r ffordd orau o gyflawni gwell aliniad rhwng yr agenda hwn, gwella gwasanaethau cyhoeddus a rheoleiddio effeithiol. Cyngor Pwyllgor Cymru yw bod angen archwilio'r materion canlynol:

- Y posibilïad o ddatganoli pellach o gydraddoldeb a hawliau dynol i Gymru tra'n cadw cysondeb Prydain ble fo'n briodol neu'n ddymunol.
- Sicrhau fod y rheolydd cydraddoldeb a hawliau dynol (y Comisiwn) yn gweithredu'n effeithiol yng Nghymru
- Y cyswllt rhwng tlodi ac anghyfartaledd
- Gallu Llywodraeth Cymru i ddal awdurdodau cyhoeddus yn atebol

Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

Mae gan y Comisiwn a Llywodraeth Cymru nod a rennir i hyrwyddo a rheoleiddio'r agenda cydraddoldeb a hawliau dynol nodedig yng Nghymru er mwyn sicrhau deilliannau sydd yn:

- Lleihau anghydraddoldeb ac yn sicrhau y deellir ac yr amddiffynnir hawliau dynol
- Cael effaith bositif ar fywydau pobl
- Arwain at fwy o effeithlonrwydd a gwerth am arian mewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus

Bydd y deilliannau hyn yn cael eu sicrhau'n fwy effeithiol os oes mwy o atebolrwydd dros gyfartaledd a hawliau dynol yng Nghymru.

Cyfeiria atebolrwydd at y broses o ddal unigolion a sefydliadau yn atebol am weithredu eu grym yn unol â safonau penodol, gan gynnwys mesur o atebolrwydd a gallu i orfodi.

Golyga atebolrwydd ateb i ddinasyddion am y modd y gwariwyd arian, neu sut yr arferwyd grymoedd a chyfrifoldebau er lles y cyhoedd – yn deg ac yn ôl y gyfraith. Mae'n fecanwaith sy'n gallu ysgogi gwelliannau o ran cyflawniad amcanion y llywodraeth mewn modd agored, i ganiatáu craffu gan y cyhoedd. O ganlyniad mae'n cynyddu hyder dinasyddion.

Cyngor y Comisiwn ar feysydd allweddol i roi sylw iddynt

Wrth baratoi ei gyngor, aeth y Pwyllgor ati i:

- Gomisiynu cyngor arbenigol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Adolygu'r seilwaith a mecanweithiau sy'n ofynnol i herio gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae cyngor Pwyllgor Cymru yn canolbwyntio ar bedwar gweithred allweddol:

- Ceisio grymoedd cynyddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn cynnwys datganoli Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Cryfhau perthynas y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru
- Creu cysylltiadau rhwng grwpiau gwarchoddedig ac anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol
- Gwneud y gorau o rymoedd presennol

Rhan 2. Ceisio grymoedd cynyddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn cynnwys datganoli Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae nifer o'r meysydd sy'n effeithio ar fywydau dyddiol dinasyddion yng Nghymru wedi eu datganoli, gan gynnwys: addysg; gofal cymdeithasol; iechyd; tai; hamdden; trafnidiaeth a chefn gwlad. Mae awdurdodau cyhoeddus yn darparu gwasanaethau a seilwaith i ddinasyddion ac yn cael eu hariannu ac yn atebol i Lywodraeth Cymru. Mae sicrhau fod pob dinesydd yn elwa o'r ddarpariaeth hon ac nad yw'n anghymesur o anodd iddynt gael mynediad at wasanaethau yn gofyn i'r awdurdodau cyhoeddus dalu sylw dyledus i ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol – ac yn benodol i gydymffurfiaid gyda Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae'r Ddyletswydd yn deillio o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig (Atodiad 2) ac wedi ei rheoleiddio gan y Comisiwn. Mae yna ddatl gref y dylai Llywodraeth Cymru gael mwy o atebolrwydd gan y sector cyhoeddus parthed ei ymlyniad at ofynion cydraddoldeb a hawliau dynol. Nid yw hyn yn fater syml o awdurdod Llywodraeth Cymru. Awgryma gwybodaeth gynnar y Comisiwn yn deillio o fonitro'r ddyletswydd ledled Prydain fod yna gydberthynas rhwng perfformiad cryf parthed y Ddyletswydd ac awdurdodau cyhoeddus sy'n perfformio'n dda.

Mae Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru yn dechrau ei waith faterion cyfansoddiadol tua diwedd 2012 a disgwylir y bydd yn adrodd ar ddiwedd 2013. Mae hyn yn cynnig cyfle allweddol i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r achos dros ddatganoli'r Ddyletswydd. Gallai hyn ddelio â'r gwendidau yn y trefniadau presennol a galluogi Llywodraeth Cymru i gael gwell rheolaeth o gyflawniad y sector cyhoeddus ar gydraddoldeb.

Wrth i agendau cydraddoldeb a hawliau dynol Llywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig ddargyfeirio, byddai'n fanteisiol i alluogi Llywodraeth Cymru i addasu Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Hefyd, byddai'r ychwanegiad hwn i'r setliad datganoli yn diogelu gallu Llywodraeth Cymru i ddal gwasanaethau cyhoeddus yn atebol os bydd y trefniadau cyfansoddiadol yn symud i'r model 'cadw yn ôl'.

Golwg fanylach

O edrych yn agosach ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cwmpasu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, gwelir tirlun o fylchau ac anghysondebau.

Deillia'r bylchau ac anghysondebau yn bennaf o'r ffaith na roddwyd fawr o ystyriaeth i Lywodraeth Cymru na'r Cynulliad Cenedlaethol wrth ddatblygu Deddf Cydraddoldeb 2006, a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Felly hefyd, wrth ddatblygu Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ychydig o ystyriaeth a roddwyd i reoleiddio cydraddoldeb a hawliau dynol.

O ganlyniad mae'r sefyllfa bresennol wedi ei disgrifio fel "blêr". *Meddai Jane Williams o Brifysgol Abertawe:*

'Mae dyraniad cyfrifoldeb dros gydraddoldeb a hawliau dynol rhwng llywodraethau datganoledig y Deyrnas Unedig, Prydain Fawr a Chymru yn flêr. Mae'r prif ffynonellau statudol – Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010 – wedi codi o wahanol ffrydiau polisi ac o bosibl wedi cyfrannu i feysydd o wrthddywediad a gorgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau sefydliadau dan y statudau hyn.'

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Deddfodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus newydd. Rhoddodd y Ddeddf rym i Lywodraeth Cymru gyflwyno Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru, i dywys awdurdodau ar sut i gydymffurfio â'r Ddyletswydd. Daeth y dyletswyddau hyn i rym yn Ebrill 2011.

Mae'r bylchau ac anghysondebau yn ymwneud â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a'r dyletswyddau penodol, yn gwanychu datganoli ac o bosibl yn gwanychu cyflawniad y Rhaglen Lywodraethu.

Gwendidau penodol yn y trefniadau presennol

Mae'r gwendidau penodol yn ymwneud â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys:

Atebolrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol

- Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi grymoedd i Weinidogion Cymru allu cyflwyno dyletswyddau penodol. **Ond** nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol yr awdurdod i gyfrannu ar gynnwys y dyletswyddau, dim ond cymeradwyo'r rheoliadau sy'n creu'r dyletswyddau.
- Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol parthed y dyletswyddau **ond** dim ond ar lefel gyffredinol – sef eu bod yn atebol i arfer eu holl swyddogaethau.
- Mae'r gofyniad i Weinidogion Cymru adrodd ar gynnydd yn flynyddol ar ddyletswyddau **ond** nid yw'r rhain yn amodol i graffu gan y Cynulliad.

Cwmpas y dyletswyddau

- Mae'r Ddeddf yn rhoi'r grym i Weinidogion Cymru lunio'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus a gwmpasir gan y dyletswyddau **ond** rhaid cytuno ar yr awdurdodau a gwmpasir gyda Gweinidogion y Deyrnas Unedig.
- Mae'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus angen cymeradwyaeth y Deyrnas Unedig **ond** nid yw'n amodol i graffu gan Bwyllgor y Cynulliad na Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Mae yna rwymedigaethau ar yr awdurdodau a restrir yn deillio o'r dyletswyddau penodol a osodwyd gan Weinidogion Cymru **ond** nid yw'n ofynnol iddynt adrodd cynnydd yn ôl iddynt.

Canllaw effeithiol i awdurdodau cyhoeddus

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymroi amser ac adnoddau i ddatblygu Cod Ymarfer ar y dyletswyddau fel un modd o sicrhau cyflawniad effeithiol. **Ond** oherwydd y modd mae Deddf Cydraddoldeb 2006 wedi ei drafftio, gellir atal cyhoeddi'r Cod hwn gan Weinidogion y Deyrnas Unedig – fel y digwyddodd yn ddiweddar – ac yna byddai unrhyw God yn cael ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig yn hytrach na'r Cynulliad Cenedlaethol – gan osgoi craffu gan y Cynulliad.

Atebion posibl

Gallai datganoli Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ddatrys yr anghysondebau allai lesteirio gallu Llywodraeth Cymru i ysgogi gwelliannau yn y sector cyhoeddus.

Gellid cyflawni hyn drwy:

- Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau

neu trwy:

- gyflwyniad i Gomisiwn Silk

Argymhelliad

Ceisio grymoedd cynyddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn cynnwys datganoli Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Gallai Llywodraeth Cymru sefydlu'r achos dros ddatganoli Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn ei chyfanrwydd, o Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Byddai hyn yn darparu Llywodraeth Cymru â sicrwydd o reolaeth yn y dyfodol. Byddai'n caniatáu ar gyfer addasu'r Ddyletswydd yng Nghymru, er enghraifft, i gynnwys dyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Gallai Llywodraeth Cymru fynd ymhellach a gofyn am y gallu i adeiladu ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Byddai hyn yn ei galluogi i gyflwyno darpariaethau penodol i Gymru parthed y sector cyhoeddus pe byddai eisiau gwneud hynny yn y dyfodol.

Gellid cyflawni hyn drwy:

- Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau
- Argymhelliad cyflwyniad Silk

Rhinweddau:

Mae Dyletswydd cwbl ddatganoledig yn cynnig y datrysiad amlycaf o ran atebolrwydd a rheoleiddio. Byddai yn:

- Galluogi ynganiad cydlynol o'r Ddyletswydd a dyletswyddau penodol yng Nghymru
- Cryfhau'r trefniant datganoli
- Galluogi mwy o obaith o gyflawni potensial y Ddyletswydd i ysgogi gwelliant i wasanaethau cyhoeddus a gwella bywydau dinasyddion
- Rhoi sicrwydd, pe byddai amcanion cydraddoldeb a hawliau dynol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru yn dargyfeirio ymhellach, byddai Llywodraeth Cymru yn rheoli'r Ddyletswydd i Gymru

Pe byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r gallu i addasu deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, byddai hyn yn diogelu ei allu i ddal gwasanaethau cyhoeddus yn atebol pe byddai trefniadau cyfansoddiadol yn symud i fodel 'cadw yn ôl'.

Heriau:

Gallai materion cydraddoldeb fynd ar goll yn agenda llawer mwy Comisiwn Silk. Mae'r ddau opsiwn yn gofyn am benderfyniadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a byddai'r amserlen yn ansicr.

Ystyriaethau ymarferol:

Gallai datganoli'r Ddyletswydd gynnwys trosglwyddiad ôl-ddilynol o adnodd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i Gymru.

Rhan 3. Cryfhau perthynas y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru

Mae yna ddargyfeirio cynyddol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig parthed cydraddoldeb a hawliau dynol. Y gwahanol ymagwedd, a'r flaenoriaeth a roddir, i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yw'r enghraifft ddiweddar amlycaf o hyn.

Rheoleiddio'r Ddyletswydd

Diben y dyletswyddau penodol yw cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i gyflawni gwell perfformiad o ran gweithredu'r Ddyletswydd. Mae gan y dyletswyddau hyn botensial i drawsnewid bywydau pobl. I gyflawni'r potensial hwn mae Llywodraeth Cymru, ac awdurdodau cyhoeddus, angen rheoleiddio sy'n cynnwys:

- Sylfaen dystiolaeth gadarn
- Canllaw clir
- Rhannu ymarfer effeithiol
- Monitro cynhwysfawr
- Adroddiadau ar berfformiad awdurdodau cyhoeddus i Weinidogion
- Gorfodaeth

Mae'r dyletswyddau penodol yn cynnig cyfle i fewnosod cydraddoldeb i gyflawniad gwasanaethau cyhoeddus ac maent wedi eu cyflwyno mewn cyfnod pan mae cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus yn crebachu a'r Comisiwn yn wynebu lleihad yn ei adnoddau. Bydd gan y Comisiwn llai o allu i reoleiddio'r dyletswyddau penodol ar y pwynt ble mae'r angen mwyaf am fewnbwn – i gynorthwyo gwell deilliannau o'r dyletswyddau a chyflawni ymroddiadau Rhaglen Lywodraethu.

Trefniadau newydd rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru

Ar y cyfan, mae arolwg o gyfrifoldebau'r Comisiwn parthed Llywodraeth Cymru yn amserol. Trwy gydgytundeb gallem adeiladu perthynas gryfach a hybu rhaglen waith y Comisiwn – yn arbennig parthed y ddyletswydd – a sicrhau bod yna adnoddau digonol i alluogi'r dyletswyddau i gyflawni eu potensial. Gellid sicrhau hyn trwy ddarparu'r Comisiwn gyda rhywfaint o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar berthynas weithredol effeithiol gyda'r Comisiwn i ddal awdurdodau cyhoeddus yn atebol am gyflawni deilliannau ar y dyletswyddau. Mae'n ofynnol i Weinidogion adrodd ar sut mae awdurdodau cyhoeddus datganoledig yn bodloni eu dyletswydd

gyffredinol erbyn Rhagfyr 2014 ac mae'r Comisiwn mewn sefyllfa unigryw i ddarparu'r data i hyn ddigwydd.

Amlygwyd pwysigrwydd cydweithio'n agos gyda'r Comisiwn gan y Gweinidog Cydraddoldeb a chroesawu'r ymagwedd bartneriaeth bresennol.

Mae rheoleiddio'r dyletswyddau yn flaenoriaeth i'r Comisiwn, ond gallai diffyg adnoddau olygu na all ymgysylltu cymaint ag y byddai'n dymuno. Gallai hyn wanychu dyletswyddau Cymru ac effaith y Ddyletswydd ar fywydau pobl.

Byddai cryfhau perthynas y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru, trwy gytundeb i ariannu rhaglenni penodol o waith, yn sicrhau fod cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio ar lefel sy'n bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

Comisiwn Cymru – rhan o sefydliad Prydain Fawr

Mae'r Comisiwn yng Nghymru yn rhan o sefydliad Prydain Fawr. Mae hyn yn sicrhau fod rheoleiddio cydraddoldeb a hawliau dynol y sector preifat a meysydd eraill nad ydynt wedi eu datganoli yn gyson ar draws y cenhedloedd. Mae yna ddadl gref dros hybu cyfraniad y Comisiwn yn hytrach na chreu corff rheoleiddio arall i Gymru.

Byddai yna fantais arwyddocaol i Lywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru, i allu cael mynediad at wybodaeth, ymchwil gyfreithiol ac arbenigedd arall sydd gan y Comisiwn yn Lloegr a'r Alban, ynghyd â'r hyn sydd ar gael yng Nghymru.

Mae seilwaith megis rheoli risg, TGCh ac archwilio eisoes yn eu lle, gan sicrhau fod y Comisiwn yng Nghymru yn cael ei redeg yn effeithlon.

Cydgytundeb

Gellid sefydlu'r sail dros berthynas gryfach rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ar ffurf Concordat. Byddai cytundeb yn ffordd glir a thryloyw i:

- Alluogi Llywodraeth Cymru i gael mynediad at y gweithgaredd rheoleiddio sy'n ofynnol i gyflawni amcanion Rhaglen Lywodraethu
- Ddarparu adnodd i sicrhau fod y Comisiwn yn hyrwyddwr a rheoleiddiwr cydraddoldeb a hawliau dynol effeithiol yng Nghymru
- Cryfhau'r berthynas rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru

Er bod arian yn brin, bydd adnoddau a fuddsoddir yn rheoleiddio cydraddoldeb a hawliau dynol yn achosi i awdurdodau cyhoeddus ymyrryd yn gynt i atal problemau rhag cynyddu ac i arbed arian. Byddai iechyd a llywodraeth leol yn elwa'n sylweddol felly dylid ystyried defnyddio 'cyllidebau gwelliant' ar gyfer cyllid y Comisiwn.

Argymhelliad

Cryfhau perthynas y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru

Gellid cymryd camau gan Lywodraeth Cymru i gryfhau'r berthynas gyda'r Comisiwn ac, yn benodol, gyda Phwyllgor Cymru a'r Gyfarwyddiaeth. Gallai'r Comisiwn gyflawni rhaglenni atodol o waith i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fan gytundeb.

Rhinweddau:

Mae'r Comisiwn yn sefydliad cadarn, archwiliedig felly gall Llywodraeth Cymru fod yn hyderus o'i gymhwyster i gyflawni. Fel rhan o sefydliad Prydain Fawr, gall y Comisiwn hwyluso cymariaethau rhwng Cymru, yr Alban a Lloegr (a chysondeb ar draws Prydain Fawr os yn briodol).

Mae Llywodraeth Cymru yn elwa o gymhwyster cynyddol i ddal awdurdodau cyhoeddus yn atebol ar gyflawniad y dyletswyddau o flaen llaw i'r adroddiadau Gweinidogol a gyhoeddir yn Rhagfyr 2014.

Mae gan Lywodraeth Cymru fynediad cynyddol at gyngor ar gydraddoldeb a hawliau dynol.

Bydd sail gryfach i reoleiddio yn galluogi Llywodraeth Cymru i werthuso effaith y dyletswyddau yn effeithlon.

Ystyriaethau ymarferol:

Mae cytundeb yn galluogi sefydlu fframwaith ar gyfer partneriaeth, galluogi diben, elfennau i'w cyflawni, amserlenni ac adnoddau (yn seiliedig ar werth am arian) yn glir.

Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru nifer o Goncordatiau ar waith, er enghraifft, y cytundeb gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Rhan 4. Creu cysylltiadau rhwng grwpiau gwarchoddedig ac anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol

Ni ellir cyflawni gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus, safonau uwch a defnydd mwy doeth o adnoddau heb ffocws ar a “sylw dyledus i” gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r un peth yn berthnasol i anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae yna orgyffwrdd rhwng anghydraddoldeb economaidd ac anghydraddoldeb yn deillio o aelodaeth o grŵp a ddiogelir – er enghraifft, mae nifer o bobl anabl a phobl Fwslimaidd ymysg y mwyaf tlawd yng Nghymru. Ond gellir galw am wahanol strategaethau i daclo anfantais economaidd-gymdeithasol ac i ddelio ag anghysondeb.

Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i wella cyrhaeddiad addysgol a chyflawni graddau uwch ledled Cymru er mwyn rhoi cyfleoedd gwell i bobl mewn bywyd. Mae yna ddigon o ddata i ddangos ble mae angen cefnogaeth ac ymyraethau.

Un esiampl sy'n werth ei astudio yw canlyniadau TGAU. Cyflawnir graddau A*-C yn y pynciau craidd gan:

- 50% o'r holl ddisgyblion
- 31% o ddisgyblion Duon
- 20% o ddisgyblion o'r cartrefi mwyaf tlawd
- 12% o ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig

I wella safonau ledled Cymru, mae angen ymyraethau targedig i gefnogi pob grŵp o ddisgyblion nad ydynt yn cyrraedd eu potensial ar hyn o bryd. Bydd y gweithrediad yn wahanol i bob grŵp, ond gellid ei asesu fel rhan o un broses gan fod gweithredoedd yn debygol o gael eu cyflawni gan yr un staff a'u hariannu o'r un gyllideb. Byddai yna fantais i gael un ymagwedd strategol, ond gyda gweithredoedd diffiniedig clir unigol. Byddai'r ymagwedd hon yn uchafu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Ymagwedd newydd

Hyd yn hyn, mae mentrau economaidd-gymdeithasol wedi eu dwyn ymlaen gan wahanol adrannau Llywodraeth Cymru a'u harwain gan Weinidogion Llywodraeth Cymru unigol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol i ddileu tlodi, ond mae sicrhau cynnydd tuag at y targedau hyn wedi bod yn anodd. Mae'n annhebygol y ceir digon o fomentwm i gyflawni'r amcanion oni bai y cymerir golwg o'r newydd ar yr ymagwedd sy'n sail i'r gwaith.

Nawr bod ymagwedd fwy strategol i hyrwyddo cydraddoldeb ar waith yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus dalu sylw dyledus i gydraddoldeb wrth osod blaenoriaethau, creu polisi a dyrannu adnoddau, efallai mai dyma'r amser i fabwysiadau ymagwedd debyg parthed anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn wir, roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi rhagweld hyn ac mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau ar gyfer dyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi penderfynu peidio "cychwyn" yr agwedd hon o'r Ddeddf ac wedi sôn am ddiddymu'r rhan hon o'r Ddeddf. Ond byddai angen Gorchmynion Cymhwyster Deddfwriaethol gan Lywodraethau Cymru a'r Alban ac nid oedd y rhain ar ddod. Gyda'i wahanol flaenoriaethau polisi a'r gwahanol ddemograffeg yng Nghymru, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn dyletswydd gyfreithiol i dalu sylw dyledus i anfantais economaidd-gymdeithasol. Gallai ofyn am ddechreuad i Gymru yn unig.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn yn ymroddedig i ddeall ysgogyddion gwahanol a gorgyffwrddol anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Os na chyflawnir y dadansoddiad hwn yn effeithlon, nid yw unrhyw strategaethau i ddelio ag anghyfartaledd neu dlodi yn debygol o gael yr effaith a chwenychir. I hyrwyddo'r gwaith hwn yn 2011, cyhoeddodd y Comisiwn yng Nghymru 'Anatomi o Anghydraddoldeb Economaidd yng Nghymru'. Roedd hyn yn archwilio data tlodi Cymru trwy graffu ar nodweddion personol pobl am y tro cyntaf. Dengys effaith cefndir teuluol ar gyfleoedd mewn bywyd. Mae'n arddangos na ellir delio'n effeithiol â thlodi os yw gwahaniaethu ac anghyfartaledd yn cael eu hanwybyddu fel ysgogyddion.

Bydd cysylltu strategaethau i uno nodweddion gwarchoddedig ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yn cryfhau'r ddau ac yn creu mwy o botensial i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, wrth sicrhau fod gan weithredoedd ddeilliannau clir yn canolbwyntio ar anghenion penodol, ac y sefydlir gwerthusiad a dulliau mesur.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y cysylltiadau hyn ac yn gobeithio datblygu ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ar y cyd â'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol. O safbwynt y Comisiwn, mae'n allweddol nad yw delio ag anghydraddoldeb yn mynd yn angof o ganlyniad i ffocws cryf ar dlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cyngor y Comisiwn

Gellid gofyn i'r Comisiwn am gyngor wrth fapio'r gorgyffwrdd rhwng materion cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol, yn cynnwys:

- Gwahanol fathau o anghydraddoldeb ac anfantais
- Y gorgyffwrdd a'r gwahaniaethau
- Strategaethau a chydlynu i ddelio â hyn

O Dachwedd 2012, bydd data'r cyfrifiad ar gael ar lefel ward gan rai o'r nodweddion gwarchoddedig, a thrwy fesurau o incwm a chyfoeth, yn ogystal â gwybodaeth iechyd. Ynghyd â ffynonellau data eraill, mae hyn yn galluogi gwell darlun nag oedd ar gael fel sail i gynllunio ymyraethau a mesur deilliannau.

Mae yna rôl glir i'r Comisiwn gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i uno cydraddoldeb ac anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol. Byddai hyn yn galluogi cymryd mantais lawn o brofiad y Comisiwn i gefnogi gwelliannau'r gwasanaeth cyhoeddus a chynghori Llywodraeth Cymru ar gynnydd.

Mae yna rôl bwysig yma i'r Comisiwn. Rhodda Adran 8 Deddf Cydraddoldeb 2006 ddyletswyddau eang i'r Comisiwn i hyrwyddi, annog a gorfodi parthed cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rôl hon yn mynd tu hwnt i gyfrifoldebau'r Comisiwn parthed y nodweddion gwarchoddedig a gallai gynnwys anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. Gall y Comisiwn gynghori'r Llywodraeth a gweithredu fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2006 Adran 8 – a ddangosir yn Atodiad 3.

Camau Nesaf

Mae yna ddewisiadau. Gallai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gychwyn dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb i Gymru yn unig. Er y rhagwelwyd y byddai'r ddyletswydd hon yn weithredol i bawb, gellid tybio y byddai dyletswydd economaidd-gymdeithasol i Gymru yn berthnasol i'r sector cyhoeddus datganoledig yn unig.

Ail ddewis fyddai i ychwanegu anfantais economaidd-gymdeithasol i Ddyletswydd sydd wedi ei datganoli'n llawn i Gymru.

Pe na fyddai'r un o'r ymagweddau hyn yn llwyddo, trydydd opsiwn fyddai i roi mwy o ddiben ac eglurder i Adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn gofyn i Weinidogion Cymru 'wneud trefniadau priodol gyda'r gobaith o sicrhau yr arferir eu swyddogaethau gan dalu sylw dyledus i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb.'

Gellid cyflawni hyn trwy egluro fod y cymal hwn yn cynnwys cydraddoldeb economaidd-gymdeithasol a thrwy dywys awdurdodau cyhoeddus ynglŷn â sut i dalu sylw dyledus wrth lunio polisi a dyrannu adnoddau. Byddai'r ymagwedd hon yn sicrhau fod Llywodraeth Cymru yn cadw rheolaeth, ac yn ei alluogi i adeiladu ar y model cydraddoldeb.

Argymhelliad

Creu cysylltiadau rhwng grwpiau gwarchoddedig ac anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol

Gallai Llywodraeth Cymru adeiladu ymagwedd strategol unedig, gyda gweithredoedd diffiniedig unigol, i daclo anfantais economaidd-gymdeithasol ac unioni anghyfartaledd.

Gellid cyflawni hyn drwy:

- Sicrhau fersiwn o ddyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 i Gymru
- Ychwanegu anfantais economaidd-gymdeithasol i Ddyletswydd sydd wedi ei datganoli'n llawn i Gymru
- Egluro diben Adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gan roi sylwedd iddo, a chyhoeddi canllaw.

Rhinweddau:

Gallai'r Comisiwn ddatblygu'r agendau economaidd-gymdeithasol a chydaddoldeb gan ddod a'i arbenigedd i'r broses a gwella deilliannau cydraddoldeb.

Byddai cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i Gymru yn sicrhau eglurder ac effaith.

Byddai ychwanegu anfantais economaidd-gymdeithasol i Ddyletswydd cwbl ddatganoledig yng Nghymru yn sicrhau ymagwedd gydlynol i anghydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol.

Mae Adran 77 Deddf 2006 wedi ei gwerthuso gan arbenigwyr fel un effeithiol i ysgogi newid a chyflawni agenda cydraddoldeb nodweddiadol yng Nghymru. Byddai'n galluogi canolbwyntio sylw'n fwy ar anfantais economaidd-gymdeithasol. Gellir cyflawni hyn yn y fframwaith deddfwriaethol presennol a gellid ei weithredu yn gymharol gyflym.

Heriau:

Mae angen cytundeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y ddau ddewis cyntaf.

Deall ysgogyddion manwl gywir anghydraddoldeb a thlodi.

Byddai angen drafftio canllaw, ymgynghori arno a'i gyhoeddi.

Ystyriaethau ymarferol:

Gallai'r Comisiwn gynghori ar orgyffyrddiadau rhwng cydraddoldeb ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Mae gan y Comisiwn, ar y cyd â Chomisiwn Prydain Fawr a sefydliadau eraill megis Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, sylfaen awdurdod o dystiolaeth.

Rhan 5: Gwneud y gorau o rymoedd presennol

Nodweddwyd blynyddoedd cynnar datganoli gan gyfres o fentrau cydraddoldeb gwerthfawr. Roeddynt yn dameidiog a digyswllt braidd i ddechrau, ond yn raddol fe ddatblygwyd ymagwedd fwy strategol.

Yn benodol, mae creu dyletswyddau penodol i Gymru – sy'n berthnasol i Llywodraeth Cymru yn ogystal â gweddill y sector cyhoeddus datganoledig – wedi arwain at ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth, hirdymor, pellgyrhaeddol i gydraddoldeb nag oedd ar gael yn flaenorol.

Mae'r amcanion cydraddoldeb a sefydlwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2011 Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfle i gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn gadarn yng ngwaith y Llywodraeth a'r sector cyhoeddus. Mae'n bwysig fod y Llywodraeth yn gwneud y gorau o'r cyfle newydd hwn i ddal y sector cyhoeddus yn atebol.

Dylai'r amcanion cydraddoldeb a gyhoeddwyd gan yr holl awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru fod yn ysgogyddion dulliau newydd o lunio polisi, gwahanol ffyrdd o gyflawni gwasanaethau a dulliau craffach o ddefnyddio adnoddau. I sicrhau fod hyn yn digwydd, mae angen i awdurdodau cyhoeddus wybod fod cyflawni ar eu haddewidion cydraddoldeb yn flaenoriaeth i'w hariannwr – Llywodraeth Cymru. Maent angen deall nad yw addewidion yn ddigon. Mae angen gwerthfawrogi na fydd gwelliannau gwasanaeth cyhoeddus yn digwydd heb ddelio ag anghenion pob adran o'n cymuned.

Gwella gwasanaethau cyhoeddus

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn darparu cyfle defnyddiol i ysgogi newid diwylliant mewn sefydliadau. Gellid cyflawni ei wir botensial trwy ei gyfuno â rhywfaint o gefnogaeth i reolwyr sector cyhoeddus i gynyddu dealltwriaeth o sut i osod cydraddoldeb yn ganolog i gynllunio a phenderfyniadau. Os oes angen, mae gorfodaeth amlwg yn bosibiliad.

Golyga cyllidebau crebachiad yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus fod yna fwy o frys i gyflawni gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus ac angen cynyddol i ganolbwyntio ar fodloni anghenion y rhai mewn grwpiau gwarchodedig a phobl dan anfantais – ble gallai nifer ohonynt fod â'r angen mwyaf am wasanaethau cyhoeddus.

Cyngor y Comisiwn i'r Llywodraeth yw y byddai sefydlu modd mwy gweladwy o fonitro gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau fod gweithredu yn dilyn geiriau a bod gweithredoedd yn arwain at ddeilliannau yn gam pwysig tuag at gynyddu atebolrwydd ar gydraddoldeb. Mae amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (a sefydlir ar ddiwedd yr adran hon)

yn seiliedig ar yr anghydraddoldebau mwyaf yng Nghymru ac yn cwmpasu meysydd portffolio mwyaf Gweinidogion.

Ni fydd amcanion Llywodraeth Cymru megis gwella cyflawniad addysgol a lleihau afiechyd yn cael ei gyflawni oni bai y diddymir rhwystrau a gwahaniaethu.

Pan fydd Gweinidogion y Llywodraeth yn sôn am gydraddoldeb, a phwysigrwydd cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb mewn gwasanaethau, gydag arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus, mae hyn yn cael effaith arwyddocaol. Mae'n bwysig yr ystyrir anghydraddoldeb fel rhan allweddol o wasanaethau cyhoeddus, nid dewis ychwanegol, neu'n waeth fyth yn faich ychwanegol. Os yw awdurdodau yn gwybod fod Gweinidogion yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar eu perfformiad cydraddoldeb, bydd hyn yn cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i'r gwaith hwn ymhellach ac yn cynyddu atebolrwydd i Lywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn rôl allweddol i chwarae fel rheolydd y Ddyletswydd a dyletswyddau penodol. Mae eisoes wedi dechrau ar y gwaith o fonitro gweithrediad ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ac wedi gweld arwyddion calonogol o gydymffurfriad. Nid yw'n ofynnol i'r Comisiwn adrodd ar hyn i Weinidogion Cymru, ond bydd yn darparu adroddiadau i Weinidogion gyda'r bwriad o wella gwasanaethau ymhellach a chynyddu atebolrwydd awdurdodau cyhoeddus i Lywodraeth Cymru parthed cydraddoldeb. Croesawyd hyn gan Weinidogion.

Cynnwys cyfamodau hawliau dynol mewn llunio polisi

Mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn ymagwedd nodweddiadol i hawliau dynol.

Yn ymarferol, mae'r datblygiad mwyaf arwyddocaol yn deillio o hyn yn ymwneud â hawliau plant. Sefydlodd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth Cymru yn unig a basiwyd gan y Senedd, ar gais Llywodraeth Cymru, Gomisiynydd Plant i Gymru gyda chyfarwyddyd i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Cymru a benododd Comisiynydd Plant cyntaf y Deyrnas Unedig, er bod yna bedwar bellach, un i bob gwlad.

Parhaodd yr ymagwedd nodweddiadol i hawliau dynol plant wrth i'r Llywodraeth gymryd camau i gynnwys egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i egwyddorion ac arferion Llywodraeth Cymru ac i wasanaethau cyhoeddus. Nododd gwerthusiad y Cenhedloedd Unedig o gydymffurfriad y Deyrnas Unedig gyda'r UNCRC fwy o berfformiad positif yng Nghymru nag unman arall yn y Deyrnas Unedig.

Gallai Llywodraeth Cymru ymestyn yr ymagwedd hon i gonfensiynau eraill y Cenhedloedd Unedig. Cyflawnwyd rhywfaint o gwmpasu mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn i weld beth fyddai hyn yn ei olygu parthed Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Gallai gofyn i wasanaethau cyhoeddus gydymffurfio'n amlycach ag mwy agored â hawliau Confensiwn gynyddu atebolrwydd i Lywodraeth Cymru parthed hawliau dynol. Argymhella'r Comisiwn y dylai hyn fod yn broses raddol gan awgrymu y dylid troi ar hawliau pobl anabl fel y maes nesaf i gael sylw.

Cyrraedd tu hwnt i'r sector cyhoeddus

Mae'r rhan fwyaf o gyngor y Comisiwn yn canolbwyntio ar y sector cyhoeddus datganoledig ond mae caffael yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb ymysg busnesau sector preifat. Hwylusir hyn gan y ddyletswydd benodol sy'n gofyn i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth ddyrannu, a monitro perfformiad, contractau. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru gymryd camau pellach i sicrhau y gwneir y gorau o'r cyfle hwn i sicrhau cynnydd mewn sefydliadau yn darparu nwyddau a gwasanaethau i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus datganoledig.

Fel enghraifft, mae'r Comisiwn wedi bod yn gweithio gyda chwmni mawr yng Nghymru i gynyddu ei ffocws ar gydraddoldeb. Ysgogwyd y diddordeb hwn o ganlyniad i'r cwmni yn colli contract pwysig am fod ei ffrydiau cydraddoldeb yn wan.

Argymhelliad

Gwneud y gorau o rymoedd presennol

Bydd parhau i gryfhau'r ffocws ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei Raglen 2011/2016.

Gallai cydraddoldeb, a pherfformiad parthed yr Amcanion Cydraddoldeb, ffurfio rhan fwy arwyddocaol o'r dialog rhwng Gweinidogion a'u sector.

Gellid cryfhau atebolrwydd awdurdodau cyhoeddus i ddelio â hawliau dynol naill ai trwy ddulliau polisi neu ddeddfwriaeth.

Rhinweddau:

Nid oes unrhyw rwystr cyfreithiol nac ymarferol i'r argymhelliad hwn. Gellid ei gychwyn ar unwaith. Mae yna sylfaen o dystiolaeth sy'n darparu sylfaen gadarn i weithredu yn y dyfodol. Bydd yn cynorthwyo cyflawniad y Rhaglen Lywodraethu.

Heriau:

Sicrhau fod swyddogion ac awdurdodau cyhoeddus yn deall yr amcanion fel rhan ganolog o'r strategaeth ehangach i gyflawni gwasanaethau a dyrannu adnoddau yn effeithlon. Maent yn fodd o gyflawni cynhwysiant cymdeithasol ac ni ddylid ei ystyried i fod yn faich biwrocraidd.

Ystyriaethau ymarferol:

Mae gan y Comisiwn rôl i'w chwarae fel rheolydd y Ddyletswydd, a dyletswyddau penodol.

Dylai rheolyddion Cymreig ystyried cydraddoldeb wrth ddatblygu eu fframweithiau archwilio.

Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru

Mae amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr anghydraddoldebau mwyaf yng Nghymru. Maent yn berthnasol i Lywodraeth Cymru ac felly i'r sector ddatganoledig a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer ohonynt yn galw am weithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, mae lleihau'r nifer o bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn galw am waith gan fwy nag un adran yn Llywodraeth Cymru a chydweithredu ar lawr gwlad gan fwy nag un gwasanaeth cyhoeddus. Yr amcanion yw:

- Gosod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i gyflawniad mewn gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn arbennig iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol, fel eu bod yn ymatebol i anghenion pobl gyda nodweddion gwarchodedig.
- Lleihau'r nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Tacklo rhwystrau a chefnogaeth i bobl anabl er mwyn iddynt allu byw yn annibynnol ac arfer dewis a rheolaeth yn eu bywydau dyddiol.
- Gweithio gyda phartneriaid i nodi a delio ag achosion gwahaniaethau tâl a chyflogaeth rhyw, ethnigrwydd ac anabled.
- Creu gweithle mwy cynhwysfawr sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff gyda nodweddion gwarchodedig trwy wella ymgysylltu â chyflogeion a chynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu sy'n hygyrch i staff.
- Lleihau achosion o bob math o drais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig, trais seiliedig ar 'urddas', troseddau casineb, bwlio a cham-drin yr henoed.
- Gwella ymgysylltu a chyfranogiad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn apwyntiadau cyhoeddus.
- Cryfhau gwasanaethau cynghori, gwybodaeth ac eiriolaeth i helpu pobl gyda nodweddion gwarchodedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Atodiad 1

Deddf Cydraddoldeb 2006 Atodlen 1 Rhan 2

Sefydlu swyddogaethau Pwyllgor Cymru

Pwyllgor Cymru

24 (1) Bydd y Comisiwn yn sefydlu pwyllgor i wneud penderfyniadau a elwir yn Bwyllgor Cymru.

(2) Bydd y Comisiwn yn sicrhau fod Pwyllgor Cymru yn cael ei sefydlu cyn i unrhyw un o adrannau 8 i 12 ddod i rym (i unrhyw raddau).

25 Bydd y Comisiwn yn penodi Comisiynydd yn Gadeirydd i Bwyllgor Cymru i'r diben o fodloni paragraff 2(3)(c).

26 Bydd y Comisiwn yn penodi pob aelod o Bwyllgor Cymru am gyfnod o ddim llai na dwy flynedd neu fwy na 5 mlynedd, yn amodol i'r posibiladau o—

- a) ailbenodiad, a
- b) diswyddo yn unol ag amodau'r penodiad.

27 Bydd Pwyllgor Cymru yn cynghori'r Comisiwn ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau cyn belled ag y maent yn effeithio ar Gymru.

28 Cyn arfer swyddogaeth mewn modd ble mae barn y Comisiwn yn debygol o effeithio ar unigolion yng Nghymru, bydd y Comisiwn yn ymgynghori gyda Phwyllgor Cymru.

29 (1) Bydd y grym dan adran 13—

- a) yn cael ei drin trwy rinwedd y paragraff hwn fel wedi ei ddirprwyo gan y Comisiwn i Bwyllgor Cymru cyn belled ag y mae ei arfer, ym marn y Comisiwn, yn effeithio ar Gymru, ac
- b) i'r graddau hynny na fydd modd ei arfer gan y Comisiwn.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn berthnasol i'r grym dan adran 13 cyn belled â'i fod yn cael ei drin fel wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Anabledd yn unol â pharagraff 52.

(3) Ni fydd is-baragraff (1) yn atal y Comisiwn rhag gwneud trefniadau dan adran 13(1)(d) neu (e) i ddarparu cyngor neu ganllaw i unigolion unrhyw le ym Mhrydain Fawr.

30 (1) Bydd y grym dan adran 11(2)(c)—

- a) yn cael ei drin trwy rinwedd y paragraff hwn fel wedi ei ddirprwyo gan y Comisiwn i Bwyllgor Cymru cyn belled â'i fod yn ymwneud â rhoi cyngor i lywodraeth ddatganoledig ynglŷn ag ymddeddfiad sydd, ym marn y Comisiwn, yn effeithio ar Gymru yn unig, ac
- b) i'r graddau hynny na fydd modd ei arfer gan y Comisiwn.

(2) Bydd y grym dan adran 11(2)(d)—

- a) yn cael ei drin trwy rinwedd y paragraff hwn fel wedi ei ddirprwyo gan y Comisiwn i Bwyllgor Cymru cyn belled â'i fod yn ymwneud â rhoi cyngor i lywodraeth ddatganoledig ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r gyfraith a fyddai, ym marn y Comisiwn, yn effeithio ar Gymru yn unig, ac
- b) i'r graddau hynny na fydd modd ei arfer gan y Comisiwn.

(3) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn berthnasol i'r grymoedd dan adran 11(2)(c) a (d) cyn belled â'u bod yn cael eu trin fel wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Anabledd yn unol â pharagraff 52.

31 Wrth ddyrannu ei adnoddau, bydd y Comisiwn yn sicrhau fod Pwyllgor Cymru yn derbyn cyfran ddigonol i'w alluogi i arfer ei swyddogaethau.

Adrannau perthnasol yn y Ddeddf Cydraddoldeb y cyfeirir atynt yn atodlen Pwyllgor Cymru

13 Gwybodaeth, cyngor, ac ati

(1) Yn unol â'i ddyletswyddau dan adrannau 8 i 10, gall y Comisiwn—

- a) gyhoeddi neu ddsbarthu syniadau neu wybodaeth;
- b) gyflawni ymchwil;
- c) ddarparu addysg neu hyfforddiant;
- d) roi cyngor neu ganllaw (p'un a yw yn ymwneud ag effaith neu weithrediad ymddeddfiad neu fel arall);
- e) drefnu i rywun wneud unrhyw beth o fewn paragraffau (a) i (d);
- f) weithredu ar y cyd gyda, cydweithio neu gynorthwyo rhywun i wneud unrhyw beth
- g) o fewn paragraffau (a) i (d);

11 Monitro'r gyfraith

(1) Bydd y Comisiwn yn monitro effeithlonrwydd yr ymddeddfiadau cydraddoldeb a hawliau dynol.

(2) Gall y Comisiwn—

- c) gynghori llywodraeth ganolog neu ddatganoledig ynglŷn ag effaith ymddeddfiad (yn cynnwys ymddeddfiad yn neu dan Ddeddf Senedd yr Alban);
- d) gynghori llywodraeth ganolog neu ddatganoledig ynglŷn ag effaith debygol newid arfaethedig yn y gyfraith.

Atodiad 2

Deddf Cydraddoldeb 2010

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

149 Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

(1) Rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, dalu sylw dyledus i'r angen i—

(a) ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu dan y Ddeddf hon;

(b) hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol phobl rhai nad ydynt yn ei rhannu;

(c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol phobl rhai nad ydynt yn ei rhannu.

(2) Rhaid i unigolyn nad yw'n awdurdod cyhoeddus ond sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus, wrth arfer y swyddogaethau hynny, dalu sylw dyledus i'r materion a grybwyllir yn is-adran (1).

(3) Mae cael sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu yn galw am dalu sylw dyledus, yn benodol, i'r angen i—

(a) ddiddymu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig i'r nodwedd honno;

(b) gymryd camau i fodloni anghenion pobl sy'n rhanni nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu;

(c) annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd ble mae cyfranogiad gan bobl o'r fath yn anghymesur o isel.

(4) Mae'r camau sy'n gysylltiedig ag ateb gofynion pobl anabl sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn anabl yn cynnwys, yn benodol, camau i ystyried anabledau pobl anabl.

(5) Mae cael sylw dyledus i'r angen i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu yn galw am dalu sylw dyledus, yn benodol, i'r angen i—

(a) taclo rhagfarn, a

(b) hyrwyddo dealltwriaeth.

(6) Gallai cydymffurfiad â'r dyletswyddau yn yr adran hon olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nad eraill; ond ni ddylid ystyried hynny fel caniatáu ymddygiad a fyddai fel arall yn cael ei wahardd gan neu dan y Ddeddf hon.

(7) Y nodweddion gwarchodedig perthnasol yw—

- oed;
- anabledd;
- ailbennu rhywedd;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil;
- crefydd neu gredo;
- rhyw;
- cyfeiriadedd rhywiol.

(8) Mae cyfeiriad at ymddygiad sydd wedi ei wahardd gan neu dan y Ddeddf yn cynnwys cyfeiriad at—

(a) dorri cymal neu reol cydraddoldeb;

(b) dorri rheol i beidio gwahaniaethu.

(9) Mae gan Atodlen 18 (eithriadau) effaith.

Atodiad 3

Deddf Cydraddoldeb 2006

Adran 8

8 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

(1) Bydd y Comisiwn, trwy arfer y grymoedd a gyflwynir yn y Rhan hwn, yn—

(a) hyrwyddo dealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth,

(b) annog arfer da parthed cydraddoldeb ac amrywiaeth,

(c) hyrwyddo cyfle cyfartal,

(d) hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau dan yr ymddeddfiadau cydraddoldeb,

(e) gorfodi'r ymddeddfiadau cydraddoldeb,

(f) gweithio tuag at ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol, a

(f) gweithio tuag at ddiddymu aflonyddu anghyfreithiol.

(2) Yn isadran (1)—

- golyga “amrywiaeth” y ffaith fod unigolion yn wahanol,
- golyga “cydraddoldeb” gydraddoldeb rhwng unigolion, a
- dylid dehongli “anghyfreithiol” yn unol ag adran 34.

(3) Wrth hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl anabl ac eraill, gall y Comisiwn, yn benodol, hyrwyddo triniaeth ffafriol o bobl anabl.

(4) yn y Rhan hwn, golyga “person anabl” rywun sydd—

(a) yn berson anabl o fewn ystyr Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (c. 50), neu

(b) sydd wedi bod yn berson anabl o fewn yr ystyr hwnnw (p'un a oedd mewn cyfnod pan oedd y Ddeddf honno mewn grym neu beidio).